



Ein cyf/Our ref EM/00749/18

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

26 Tachwedd 2018

Annwyl Meri

Yn ein cyfarfod chwarterol ar 8 Hydref cawsom drafodaeth bwysig am y broses o ddatrys cwynion am dor safon. Nid wyf yn gallu rhoi cyfarwyddyd i chi am eich swyddogaethau o dan Rhan 5 y Mesur. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithlon ac yn cyfeirio gymaint â phosib o'n hadnoddau prin tuag at hybu'r Gymraeg.

Fe wnaethoch chi sôn y buasech yn dymuno gweld newid yn y gyfraith i ganiatáu i'r Comisiynydd weithredu datrysiad buan heb gynnal ymchwiliad llawn. Nid yw'r Mesur yn gwneud darpariaeth benodol am ddatrysiad buan ond ym marn Gweinidogion Cymru, nid oes angen newid i'r gyfraith.

Mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn wrth wneud penderfyniad p'un ai i gynnal ymchwiliad neu beidio (adran 93 o Fesur y Gymraeg 2011). Y cwestiwn allweddol yw beth yw hyd a lled y disgrisiwn yna. Mae dyfarniad diweddar gan Dribiwnlys y Gymraeg (TyG/WLT/18/3, paragraffau 20 a 21) yn taflu rhywfaint o olau ar y mater:

Diben y system Safonau yw newid ymddygiad awdurdodau cyhoeddus ac, os yw'n digwydd, fel mae'r Comisiynydd yn nodi, bod newid o'r fath wedi bod, gellir deall rhesymeg ei chasgliad, yn seiliedig ar y ffaith honno ac ar yr amser a oedd wedi mynd heibio, y byddai ymchwiliad, hyd yn oed pe byddai wedi arwain at ganfyddiad o fethiant i gydymffurfio, yn ddefnydd adnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw fudd a fyddai'n deillio i ddefnyddwyr y Gymraeg...

Mae casgliad terfynol y Tribiwnlys ym mharagraff 23 yn arwyddocaol:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd gan y Comisiynydd hawl, yn seiliedig ar ei chred, ar yr adeg berthnasol, bod y cyngor dan sylw wedi newid ei arfer a'u bod felly wedi dileu'r sail dros gwyno, ac ar yr amser a aeth heibio ers derbyn y gŵyn, i benderfynu y byddai ymchwiliad yn golygu gwneud defnydd o adnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw effaith fuddiol ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

Rwyf wedi derbyn cyngor cyfreithiol ar sgôp disgrisiwn y Comisiynydd o dan adran 93. Fy nealltwriaeth i yw bod ganddo chi yr hawl i fabwysiadu polisi i ddynodi sut y byddech yn gyffredinol yn arfer eich disgrisiwn o dan adran 93. Fe all eich polisi cael ei osod yn eich dogfen Polisi Gorfodi. Mae'r disgrisiwn sydd ganddo chi yn caniatáu i chi nodi na fyddwch yn gyffredinol yn cynnal ymchwiliad heb fod ymgais wedi bod rhwng yr achwynydd a'r corff yr achwynir amdano i ddatrys y mater yn gyntaf. Gallai hyn ganiatáu, er enghraifft:

- a) Cyfeirio cwyn i'r corff dan sylw er mwyn i'r corff hwnnw gael cyfle i ddod i ddatrysiad cyn i chi benderfynu ymchwilio ai peidio.
- b) Gwneud ymholiadau cychwynnol cyn dod i benderfyniad i ymchwilio ai peidio. Pwrpas ymholiadau cychwynnol fyddai casglu digon o wybodaeth i wneud penderfyniad sy'n gyfreithlon, teg a rhesymegol. Gall ymholiad cychwynnol arwain at dystiolaeth bod corff wedi cywiro nam a newid ei ymddygiad, neu wedi ymrwymo i gymryd camau penodol neu i gytuno i gymryd camau.
- c) Hyd yn oed mewn achosion ble'r ydych yn credu ei bod yn debygol bod corff wedi methu â chydymffurfio, gallwch ddod i'r casgliad nad ellir cyfiawnhau ymchwiliad ar y sail bod dystiolaeth bod corff wedi newid ei ymddygiad, bod sail y gŵyn wedi ei ddileu a/neu'r defnydd gorau o adnoddau.

Fe ellir disgrifio polisi fel yr un uchod fel 'polisi datrysiad buan' os dymunir hynny. Byddai'n rhaid i bolisi o'r fath ganiatáu eithriadau er mwyn sicrhau nad ydych yn llesteirio eich disgrisiwn. Un enghraifft yw ble mae corff yn oedi'n afresymol cyn ymateb i'ch ymholiadau neu os yw'n gwrthod ceisio datrys y mater. Enghraifft arall yw ble mae corff wedi cywiro nam ond ei bod yn rhesymol i chi gynnal ymchwiliad am resymau eraill.

Mae'n bwysig i nodi na fyddai polisi o'r fath yn effeithio ar hawliau'r achwynydd na phwerau'r Comisiynydd.

- i. Os nad yw achwynydd yn fodlon gyda datrysiad y corff, caiff ail-gyflwyno'r gŵyn i'r Comisiynydd o dan adran 93 y Mesur.
- ii. Os nad yw achwynydd yn fodlon gyda phenderfyniad gan y Comisiynydd i beidio ymchwilio i gŵyn, caiff wneud cais i'r Tribiwnlys am adolygiad o'r penderfyniad o dan adran 103 y Mesur.
- iii. Os nad yw'r Comisiynydd yn fodlon bod corff wedi cadw at ei ymrwymadau, caiff benderfynu cynnal ymchwiliad o dan adran 71 y Mesur.

Mae'r uchod yn crynhoi dehongliad cyffredinol Gweinidogion Cymru o'r hyn sy'n bosib o dan y Mesur. Wrth rheswm, bydd rhaid i chi gymryd eich cyngor cyfreithiol eich hun ar hyn. Os

byddwch yn penderfynu adolygu eich Polisi Gorfodi yn sgil y llythyr hwn, bydd rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr adolygiadau fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r Polisi Gorfodi.

Rwy'n edrych ymlaen at y cyfle i drafod y materion hyn ymhellach yn ein cyfarfod chwarterol nesaf ym mis Rhagfyr.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Welsh Language and Lifelong Learning